

CYFLWR
Y
GENEDL



chwaraeteg.com



02920 462 745



@chwaraeteg #CTSotN19

CYFLWYNIAD

Mae cydraddoldeb rhywiol yn bwysig er mwyn sicrhau bod gan fenywod, dynion a phobl anneuaid yr un hawliau, cyfleoedd a chanlyniadau, ac er mwyn hybu llesiant a thwf economaidd.

Mae gwaith ymchwil diweddar a gwblhawyd ar ran Chwarae Teg wedi awgrymu y gallai cydraddoldeb rhywiol llawn ychwanegu £13.6 biliwn at ragolygon gwerth ychwanegol gros Cymru ar gyfer 2028. Trwy efelychu perfformiad y rhanbarth mwyaf llwyddiannus o'r DU o ran mesurau cydraddoldeb rhywiol allweddol, gallai gwerth ychwanegol gros Cymru gynyddu £4.4 biliwn. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ymchwil yn y DU a gwaith ymchwil rhyngwladol sy'n awgrymu y gallai sicrhau cydraddoldeb rhywiol arwain at fanteision sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais i Gymru arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol, ac mae gwaith wedi mynd rhagddo i adolygu polisïau ac arferion presennol Llywodraeth Cymru er mwyn amlinellu sut y gellir gwreiddu'r weledigaeth hon.

Rhan bwysig o arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol yw trafod perfformiad y genedl ar hyn o bryd mewn ffordd ddidwyll. Pa mor gyfartal yw Cymru? Mae'r papur briffio Cyflwr y Genedl hwn yn ceisio ateb y cwestiwn hwn, gan amlinellu sut mae Cymru yn perfformio mewn perthynas â dangosyddion allweddol ym maes cydraddoldeb rhywiol. Mae'r dangosyddion hyn wedi'u rhannu'n dair prif thema, sy'n ganolbwynt strategol allweddol ar gyfer gwaith Chwarae Teg.

Mae'r dangosyddion wedi'u dewis ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys cadernid y data ac a yw'r data'n cael ei ddiweddarau yn rheolaidd. Hefyd, maent wedi'u dewis er mwyn ceisio darparu asesiad cyffredinol, llinell uchaf o gydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. Bydd cyfyngiadau i'r hyn y mae'r data yn y papur briffio hwn yn gallu ei ddangos, ond y gobaiith yw y bydd yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at drafod cydraddoldeb yng Nghymru. Bob blwyddyn byddwn ni'n ailystyried y dangosyddion allweddol hyn yn ein digwyddiad Cyflwr y Genedl er mwyn asesu ein cynnydd tuag at Gymru decach lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu.



Menywod yn yr Economi
creu Cymru lle mae menywod yn cyflawni a ffynnu ym mhob sector ac ar bob lefel o'r economi



Cynrychiolaeth Menywod
creu Cymru lle mae menywod yn weladwy ac yn ddylanwadol ym mhob sector o'r economi, cymdeithas a bywyd cyhoeddus



Menywod mewn Perygl
creu Cymru lle mae menywod yn cael eu grymuso i wireddu eu potensial, waeth beth yw eu cefndir, eu statws cymdeithasol na'u lleoliad daearyddol

AGWEDD GYFUNOL

Ni ellir ystyried cydraddoldeb rhywiol yn fater ar wahân. Mae bywydau pobl yn cael eu dylanwadu gan ffactorau amrywiol gan gynnwys rhywedd, hil, anabledd a dosbarth. Ni fyddwn yn sicrhau cydraddoldeb rhywiol hyd nes y bydd pob menyw yn gallu gwireddu ei photensial yn llawn a byw heb ddioddef gwahaniaethu, aflonyddu a cham-drin. Dyna pam mae'n bwysig bod ag agwedd gyfunol at sicrhau cydraddoldeb rhywiol.

Ystyr agwedd gyfunol yw nodi sut mae strwythurau p er sy'n seiliedig ar ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd yn rhyngweithio ac yn creu anghydraddoldeb, gwahaniaethu a gorthrwm. Mae'n ymwneud â deall sut mae'r nodweddion hyn yn gallu rhyngweithio a chreu profiadau ac anfantais unigryw a lluosog, mewn sefyllfaoedd penodol yn aml.


Ni ellid ac ni ddylid ystyried un math penodol o wahaniaethu ar wahân i fathau eraill. Mae agwedd gyfunol go iawn yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Nid

yw menywod yn wynebu'r un math o anghydraddoldeb. Mae'n hollbwysig bod trafodaethau yn ymwneud â chydaddoldeb rhywiol yn ystyried sut mae rhwystrau'n gallu amrywio ar gyfer grwpiau gwahanol o fenywod, a sut mae materion yn ymwneud â hiliaeth, rhagfarn ar sail rhyw a rhagfarn ar sail anabledd yn gallu cyfuno i greu profiadau unigryw.

Gall data fod yn her o safbwynt agwedd

3STATWS CYFLOGAETH YN ÔL RHYWEDD AC ETHNIGRWYDD


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorff 2017-Meh 2018.



gyfunol, a defnyddir yr heriau hyn weithiau fel rheswm i beidio â mabwysiadu agwedd gyfunol. Er bod modd defnyddio rhywfaint o ddata i ddadansoddi grwpiau gwahanol fel Menywod Duon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Eithnig (BAME) neu fenywod anabl, mae'n gallu bod yn anodd asesu'r un data ar gyfer Cymru am nifer o resymau. Fodd bynnag, mae modd defnyddio rhywfaint o ddata economaidd at ddibenion dadansoddi, ac mae'n bwysig i ni wneud hynny.

4ANABLEDD A GWEITHGARWCH ECONOMAIDD

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorff 2017-Meh 2018.



Oherwydd problemau data, nid oes modd dadgrynhai'r rhan fwyaf o'n dangosyddion Cyflwr y Genedl isod mewn ffordd sy'n caniatáu dadansoddiad cyfunol gwirioneddol. Fodd bynnag, byddwn ni'n parhau i ofyn am brosesau gwell o ddadgrynhai data cyhoeddus fel bod papurau briffio'r dyfodol yn gallu asesu cyflwr y genedl ar gyfer holl fenywod Cymru mewn ffordd gywirach.



MENYWOD YN YR ECONOMI

Er bod cyfradd cyflogaeth menywod wedi parhau i gynyddu dros y degawd diwethaf, mae anghydraddoldebau sylweddol yn parhau o safbwynt cyfranogiad economaidd menywod a dynion. Mae'r anghydraddoldeb hwn yn deillio o'r swyddi, sectorau, galwedigaethau a mathau o gontractau y mae menywod yn fyw tebygol o gael eu cyflogi ynddynt, sydd yn eu tro'n cael eu llunio gan y pwysau cynyddol y mae menywod yn ei wynebu yn aml oherwydd cyfrifoldebau gofal.

Mae'r data economaidd ar gyfer Cymru yn dangos bod angen gweithredu o hyd er mwyn sicrhau bod rhagor o fenywod yn gallu cael swyddi sy'n cynnig cyflog ac amodau gwaith teilwng, a chyfleoedd i gamau ymlaen yn eu gyrfa. Hefyd, mae angen mynd i'r afael â'r gwahanu sy'n nodwedd o'r farchnad lafur ac yn golygu bod menywod wedi'u clystru mewn sectorau cyflogau is ar gontractau rhan-amser.

BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU⁵

Mae'n gadarnhaol nodi bod y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yng Nghymru wedi gostwng 1.3% yn gyffredinol (13.5% o'i gymharu â 14.7% yn 2017) a bod cyfradd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn cau'n gyflymach na chyfradd y DU yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn gymysg mewn ardaloedd gwahanol o Gymru, ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau mor uchel â 25% mewn rhai ardaloedd. Mae sawl rheswm am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan gynnwys y sectorau, y swyddi a'r mathau o gontractau sydd gan fenywod yn gyffredinol.


Mae sectorau a galwedigaethau penodol yn parhau i gyflogi dynion yn bennaf, ac yn aml maent yn cynnig cyflogau uwch a chyfleoedd gwell i gamu ymlaen yn y swydd. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn yr adran Cynrychiolaeth Menywod.

CYFLOG YR AWR
I WEITHIWR
GWRYW
£12.19

CYFLOG
CANOLRIFOL
YR AWR HOLL
WEITHWR
YNG
NGHYMRU
£11.42

CYFLOG YR AWR
I WEITHWR
BENYWAIDD
£10.54

BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2018 YN ÔL AWDURDOD LLEOL



80.4%
O DDYNIION

A

72.2%
O FENYWOD

RHWNG

16-64
OED


YN



WEITHREDOL
YN
ECONOMAIDD


CYFRADD GWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYW AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorff 2017-Meh 2018



CYFRADDAU ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN OL RHYW AC OEDRAN



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorff 2017-Meh 2018



19.6%


27.8%

Mae 27.8% o fenywod yn economaidd anweithgar o'i gymharu â 19.6% o ddynion



CYFRADDAU DIWEITHDRA YN ÔL RHYW AC OEDRAN


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorff 2017-Meh 2018



PAM MAE MENYWOD A DYNION YN ECONOMAIDD ANWEITHGAR?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorff 2017-Meh 2018


Gofalu am y teulu/cartref



7.2%
YN ERBYN
28.7%


HUNANGYFLOGAETH

PA GANRAN O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N HUNANGYFLOGEDIG?




PATRYMAU GWEITHIO


FAINT O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N GWEITHIO'N RHAN-AMSER?



PATRYMAU GWEITHIO YN ÔL OEDRAN



ORIAU GWAITH






CYNRYCHOLAETH MENYWOD

Mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y broses o wneud penderfyniadau ym mhob agwedd ar fywyd, gan gynnwys mewn sefydliadau gwleidyddol, cyrff cyhoeddus neu ym mhrif swyddi byd busnes.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod presenoldeb menywod yn arwain at drafod materion gwahanol, a bod sicrhau amrywiaeth o bobl wrth wneud penderfyniadau yn arwain at benderfyniadau gwell.

Er bod y Cynulliad Cenedlaethol yn perfformio'n gymharol dda, mae'r sefyllfa ehangach o safbwynt cynrychiolaeth menywod yng Nghymru yn fwy heriol, ac mae angen gwneud mwy i sicrhau bod lleisiau menywod yn fwy amlwg mewn swyddi allweddol.




- ACau yn fenywod
- ASau o Gymru yn fenywod
- Gynghorwyr Lleol yn fenywod

- Weinidogion Cabinet Llywodraeth Cymru yn fenywod


- Brif Weithredwyr Cynghorau Cymru yn fenywod
- aelodau Cabinet Cynghorau Cymru yn fenywod
- Arweinyddwyr Cynghorau Cymru yn fenywod

SEFYDLIADAU GWLEIDYDDOL


BYWYD CYHOEDDUS



O AELODAU BWRDD PRIF
GYRFF A NODDIR GAN
LYWODRAETH CYMRU YN
FENYWOD



O BRIF WEITHREDWYR
Y PRIF GYRFF A
NODDIR YN
FENYWOD



O BENODIADAU NEU
AILBENODIADAU
CYHOEDDUS I
FENYWOD

Ffynhonnell: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; 2017


BUSNES A'R GWEITHLE

Mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithle, ac mae hynny'n effeithio ar dâl a gallu menywod i gamu ymlaen yn eu swyddi, gan gyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.


Mae mwy o ddynion yn llenwi swyddi lefel uchel yn y rhan fwyaf o sectorau, ac mae menywod yn llawer mwy tebygol o weithio mewn swyddi cyflogau isel (arwahanu fertigol).

Hefyd, mae dynion a menywod yn tueddu i weithio mewn sectorau gwahanol, ac mae mwy o ddynion yn gweithio mewn sectorau sy'n cynnig cyflogau uwch a llwybrau gwell i gamu ymlaen yn y swydd (arwahanu llorweddol).


BETH YW'R CYDBWYSEDD RHWNG Y RHYWIAU YN SECTORAU CYMRU?



PA ALWEDIGAETHAU SY'N CYFLOGI DYNION A MENYWOD?



PWY SY'N GWNEUD UWCH SWYDDI A SWYDDI PROFFESIYNOL



MAE
6%
O'R
100 BUSNES
MWWYAF LLWYD-
DIANNUS YNG
NGHYMRU YN
CAEL EU
HARWAIN GAN
FENYWOD

(Ffynhonnell: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017).

! MENYWOD MEWN PERYGL

Gall menywod wynebu mwy o berygl o dlodi, arwahanrwydd cymdeithasol a chaledi ariannol oherwydd sefyllfaoedd gwahanol dynion a menywod yn y gweithle ac mewn cymdeithas, ac oherwydd effeithiau diwygiadau lles.

Hefyd, mae menywod mewn perygl o ddioddef aflonyddu, cam-drin a thrais. Mae menywod yn parhau i ddioddef trais gan ddynion mewn llefydd cyhoeddus, yn y gweithle neu yn eu cartrefi eu hunain, sy'n arwain at ragor o anghydraddoldeb.


AFLONYDDU, CAM-DRIN A THRAIS

Treiso ac Ymosodiadau Rhywiol
Cofnododd yr heddlu gyfanswm o **55,068** o achosion o dreiso yng Nghymru a Lloegr erbyn mis Mehefin 2018.

Roedd 65.4% o'r holl droseddau treiso⁶ yn ymwneud â threiso menywod 16 oed a throsodd, ac roedd 13.7% o'r achosion yn ymwneud â threiso merched o dan 16 oed. Y llynedd, roedd 79% o'r rhai a orosodd droseddau treiso yn fenywod.⁷

ROEDD
93%
O DDEFNYDDWYR
GWASANAETHAU
ARGYFWNG TRAIS
CYMRU A LLOEGR YN
FENYWOD (2017-18)⁸

Ffynhonnell: Rape Crisis England and Wales (2018)




Mae un o bob pump o fenywod yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef rhyw fath o ymosodiad rhywiol ers eu bod yn 16 oed.⁹

Roedd dros 510,000 o fenywod (3.1% o holl fenywod 16-25 oed) wedi dioddef rhyw fath o ymosodiad rhywiol y llynedd.¹⁰

CAM-DRIN DOMESTIG

CYFRAN YR OEDOLION A DDIODDEFODD UNRHYW GAM-DRIN DOMESTIG, YN ÔL RHYW A GRWP OEDRAN

Ffynhonnell: Cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol – tablau Atodiad, 2018



Roedd 36% o'r holl droseddau yng Nghymru yn 2018 yn ymwneud â cham-drin domestig.¹¹ Mae 65% o'r holl achosion lle mae pobl yn goroesi cam-drin domestig o unrhyw fath (cam-drin heb fod yn gorfforol gan bartner neu aelod o'r teulu, bygythiadau, grym, ymosodiad rhywiol neu stelcio) yn ymwneud â menywod 16-74 oed.¹²

Dioddefodd 7.9% o fenywod 16-59 oed rhyw fath o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn 2018.¹³ Roedd 69% o fenywod 16-59 oed a oedd wedi goroesi cam-drin domestig wedi cael eu cam-drin gan eu partner, ac roedd 30.7% o ddynion 16-59 oed a oedd wedi goroesi cam-drin domestig wedi cael eu cam-drin gan eu partner.¹⁴

Mae'n hysbys, neu'n bosibl, bod o leiaf 13 o fenywod wedi'u lladd gan ddynion rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2016. Ar gyfartaledd, mae un fenyw yn cael ei lladd bob 28 diwrnod.¹⁵

Ffynhonnell: Cymorth i Ferched Cymru, adroddiad Cyflwr y Sector 2017¹⁶

AFLONYDDU A DIOGELWCH

52% Mae 52% o ferched 13-21 oed wedi dioddef aflonyddu ar y stryd

63% Nid yw 63% o ferched a menywod ifanc 13-21 oed yn teimlo'n ddiogel yn cerdded adref ar eu pennau eu hunain

47% Dywedodd 47% nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus

33% Roedd 33% wedi dioddef achosion o rywun yn tynnu llun o dan eu sgerf

24% Roedd 24% o ferched rhwng 13-21 oed wedi dioddef sylwadau rhywiaethol ar y cyfryngau cyndeithasol

Ffynhonnell: Arolwg y Geidiau 2018¹⁶


TLODI

Mae cyfraddau tloidi'n cael eu mesur ar lefel aelwyd yn hytrach nag ar lefel unigolyn. Y rhagdybiaeth yw bod adnoddau'n cael eu rhannu'n gyfartal ar yr aelwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl bod graddfa wirioneddol tloidi menywod wedi'i chuddio. Heb os, mae menywod mewn mwy o berygl o ddioddef tloidi, am eu bod yn fwy tebygol


o fod yn ail enillydd ar yr aelwyd, yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau sy'n talu cyflogau isel ac yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser. Hefyd, maent mewn mwy o berygl o ddioddef tloidi pan fydd perthynas yn dod i ben oherwydd eu sefyllfa wannach yn y farchnad lafur. Teitl: Faint o fenywod sy'n byw mewn tloidi?

PWY SYDD MEWN MWY O BERYGL O WYNEBU TLODI?

Ffynhonnell: Stats Cymru, HBAI, 2018 - : Stats Cymru, Pobl mewn tloidi cymharol yn ôl math o deulu 2014-2015 i 2016-17¹⁷



MAE



24%

O AELWYDYDD YNG
NGHYMRU YN BYW
MEWN TLODI INCWM
CYMHAROL



MENYWOD 42%


DYNIION 12%

MAE 42% O FENYWOD
YNG NGHYMRU YN
GWEITHIO'N
RHAN-AMSER O'I
GYMHARU Â 12% O
DDYNION

FFYNHONNELL: AROLWG BLYNY-
DDOL O'R BOBLOGAETH GORFF
2017-MEH 2018, CYRCHWYD TRWY
NOMIS 2018


PWY SY'N BYW MEWN TLODI CYSON?

Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tlodi Cyson yn y DU a'r UE 2015, Mehefin 2017^a




PATRYMAU GWEITHIO A THLODI (DU)

Ffynhonnell: JRF Poverty in the UK 2018



MAE



58%

O BOBL OEDRAN
GWEITHIO SY'N HAWLIO
BUDD-DALIADAU YN
FENYWOD

MAE



59%

O GLEIENTIAID SY'N
GOFYN I CYNGOR AR
BOPETH YNG NGHYMRU
AM GYNGOR AR
FUDD-DALIADAU A
CHREDYDAU TRETH YN
FENYWOD


DIWYGIADAU I NAWDD CYMDEITHASOL A LLES

Ers 2010, bu diwygiadau a thoriadau cyson i nawdd cymdeithasol. Yr her fwyaf yw'r newid i'r system Credyd Cynhwysol sy'n mynd rhagddo o hyd, ac sydd wedi'i beirniadu'n eang. Un pryder pwysig yw'r effaith debygol ar fenywod, gan nad yw Credyd Cynhwysol yn cynnig llawer o gymhelliant i'r rhai sy'n ennill ail gyflog fynd allan i weithio. Hefyd, bydd taliadau'n cael eu gwneud i un penteulu, gan gynyddu'r perygl o gam-drin ariannol.

Nid yw Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn yng Nghymru eto, felly mae data ar effaith y newid hwn yn gyfyngedig. Byddwn ni'n monitro'r wybodaeth hon yn agos, a bydd effaith Credyd Cynhwysol yn cael ei chynnwys ym mhapurau briffio Cyflwr y Genedl yn y dyfodol.

Hefyd, credir bod y toriadau i wariant ar nawdd cymdeithasol ers 2010 wedi cael effaith anghymesur ar fenywod.

AMCANGYFRIFIR BOD



80%

O ARBEDION SY'N DEILLIO
O NEWIDIADAU LLES A
THRETH WEDI DOD O
BOCEDI MENYWOD



CASGLIAD

Mae'n galonogol bod gan Gymru uchelgais mawr i arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol. Er mwyn gwredu'r uchelgais hwn, mae angen i ni ddeall y meysydd lle mae menywod yn dioddef anghydraddoldeb ar hyn o bryd, a sicrhau bod camau'n cael eu rhoi ar waith. Mae'r papur briffio Cyflwr y Genedl yn darparu meincnod ar gyfer perfformiad Cymru yn erbyn dangosyddion allweddol, ac yn nodi'r heriau sy'n ein hwynebu.

Mae angen gweithredu er mwyn dileu'r rhwystrau sy'n wynebu menywod wrth ymgysylltu â'r economi. Ni allwn fforddio tanddefnyddio sgiliau a photensial menywod, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod menywod yn gallu sicrhau swyddi teg, camu ymlaen yn eu swyddi, ac ennill cyflogau teilwng. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen cymryd camau i newid ein gweithleoedd, herio stereoteipiau a sicrhau bod gennym wasanaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant gyda'r gorau yn y byd sy'n cyflawni ar gyfer plant ac yn helpu rhieni i weithio.

Mae lleisiau menywod heb gynrychiolaeth ddigonol ar lefelau penderfynu allweddol

ledled cymdeithas Cymru. Mae cyflymder y newid yn boenus o araf o hyd; ar sail y cyfraddau presennol, bydd rhaid i ni aros tan 2073 cyn sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiâu yn ein cyngorau lleol. Mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol, cyrff cyhoeddus a busnesau gymryd y mater hwn o ddifrif ac ymrwymo i dargedau uchelgeisiol ar gyfer gwella cynrychiolaeth y rhywiâu. Hefyd, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu hyder menywod, hyrwyddo esiamplau amrywiol a sicrhau bod rhwydweithiau a llwybrau traddodiadol i swyddi arweinyddiaeth ar gael i bawb, a'u bod yn fwy cynhwysol.

Mae'r anghydraddoldeb sy'n wynebu menywod ar hyn o bryd yn eu rhoi mewn perygl. Ni fydd Cymru yn wlad ddiogel i fenywod oni bai ein bod yn dileu'r perygl o drais, aflonyddu, tlodi ac ynysu. Bydd gwella sefyllfa economaidd menywod yn lleihau rhai o'r peryglon hyn, ond mae angen newid cymdeithasol a diwylliannol cyffredinol er mwyn sicrhau bod trais ar sail rhywedd yn perthyn i'r gorffennol.

Yn 2020 byddwn yn ailystyried y dangosyddion pwysig hyn er mwyn nodi pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gydraddoldeb rhywiol. Er mwyn sicrhau newid ystyrion a pharhaol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y llywodraeth, busnesau ac unigolion yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a'u bod yn gweithio gyda ni i greu Cymru decach lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu.

ÔL-NODIADAU

¹ Cebr ar ran Chwarae Teg The Economic Value of Gender Equality in Wales Tachwedd 2018

² Ibid

³ Mae'r gyfradd cyflogaeth yn cyfeirio at gyfran y boblogaeth mewn cyflogaeth; mae'r gyfradd diweithdra yn cynnwys pobl nad oes ganddynt swydd sydd wedi bod yn chwilio am waith, yn ogystal â phobl sy'n ddi-waith ac sydd wedi dod o hyd i swydd ac yn aros i ddechrau gweithio; mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl ddi-waith nad ydynt wedi chwilio am waith dros y 4 wythnos diwethaf

⁴ Y gyfradd gweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth sy'n cynnwys y cyflenwad llafur sydd ar gael, gan gynnwys unigolion cyflogedig ac unigolion di-waith

⁵ Ffynhonnell data bwch cyflog rhwng y rhywiâu: Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE) Workplace Analysis 2018; hourly pay excluding overtime

⁶ Troseddau Rhyw, y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Crime Survey for England and Wales appendix tables 2018. <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/sexualoffendingcrimesurveyforenglandandwalesappendix-tables> (Fel ar: Rhagfyr 2018) (Ffigurau'n dod o: Table A4: Police recorded crime by offence, year ending March 2003 to year ending June 2018 and percentage change between year ending June 2017 and year ending June 2018)

⁷ Ibid.

⁸ Rape Crisis England and Wales, Prif ystadegau 2017-18 <https://rapecrisis.org.uk/get-informed/rcew-statistics/>

⁹ Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2018 <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffences-nenglandandwales/yearendmarch2017>

¹⁰ Rape Crisis England and Wales, 2018 <https://rapecrisis.org.uk/get-informed/about-sexual-violence/statistics-sexual-violence/>

¹¹ Cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol: blwyddyn

yn dod i ben mis Mawrth 2018, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendmarch2018> (Fel ar: Rhagfyr 2018). (Y ffigur yn dod o: Table 6a: Number of domestic abuse-related offences recorded by the police and percentage of offences that were domestic abuse-related, by police force area, English regions and Wales, year ending March 2016 to year ending March 2018)

¹² Ibid. (Y ffigur yn dod o: Table 1: Estimated number of victims of domestic abuse in the last year, by sex, year ending March 2005 to year ending March 2018 CSEW)

¹³ Ibid. (Y ffigur yn dod o: Table 2: Prevalence of domestic abuse in the last year among adults aged 16 to 59 and 60 to 74, by category, year ending March 2018)

¹⁴ Ibid. (Y ffigur yn dod o: Table 4: Percentage of adults aged 16 to 59 and 60 to 74 who were victims of partner abuse in the last year, by personal characteristics, year ending March 2018 CSEW)

¹⁵ Cymorth i Ferched Cymru, Adroddiad Cyflwr y Sector 2017 <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2018/02/WWA-State-of-the-Sector-2017-Welsh.pdf>

¹⁶ Mae Geidiau'r DU wedi cyhoeddi arolwg blynyddol o agweddau merched ers 2009. Ymatebodd cyfanswm o 1,903 o ferched 7-21 oed i arolwg 2018, gan gynnwys merched nad ydynt yn geidiau o bob rhan o'r DU. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o gyfweiliadau ar-lein, a chynhaliwyd rhai cyfweiliadau gyda merched 7-16 oed mewn ysgolion. Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb ychwanegol gyda merched ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn sicrhau cynrychiolaeth lawn. Mae tablau data llawn ar gael yn - <https://www.girlguiding.org.uk/globalassets/docs-and-resources/research-and-campaigns/girls-attitudes-survey-2018-tables.pdf>

¹⁷ Y diffiniad o berson sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yw person sy'n byw ar aelwyd lle mae holl incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60 y cant o incwm cyfartalog aelwydydd (fel y'i nodir gan y canolrif).

¹⁸ Y diffiniad o dlodi cyson yw bod mewn tlodi incwm cymharol yn y flwyddyn bresennol ac o leiaf dwy o'r tair blynedd cyn hynny.

Gwybodaeth yn gywir yn Rhagfyr 2018